SUL CYFFREDIN 14

**GENESIS 37:1-4, 12-28; SALM 105:1-6, 16-22, 45;
RHUFEINIAID 10:5-15; MATHEW 14:22-33**

● **Gweddi agoriadol**

Dduw Dad,
rwyt yn ein croesawu i'th dŷ,
a ninnau yn ein tro yn dy groesawu i'n calon,
ac yn gweddïo y bydd i ti ein bendithio
wrth i ni gyfarfod i addoli
ac i fwynhau'r gymdeithas
a'r gwasanaeth yn y lle hwn
a phle bynnag yr ei di â ni.

● **Moliant**

Canwn dy glodydd
a chyhoeddwn dy enw
wastad
ac i bellafoedd byd.

Soniwn am dy drugaredd
a'th ras,
am feichiau'n cael eu codi,
cadwyni'n cael eu datod,
maddeuant,
bywyd newydd,
gobaith,
heddwch.

Canwn dy glodydd
a chyhoeddwn dy enw
tra bod anadl ynom.

● **Cyffes**
Maddau i ni, Arglwydd,
pan wahaniaethwn
yn erbyn y cyfoethog neu'r tlawd,
yn ôl hil neu gred
neu agwedd hyd yn oed.
Maddau i ni, Arglwydd,
pan na rannwn rym dy gariad adnewyddol,
pan nad ymestynnwn a chyffwrdd
ble mae cyni.
Pryd bynnag y bydd ein bywydau
yn gwadu'r gwir a broffeswn,
maddau i ni
ac adnewydda ni, os gweli'n dda.

● Diolch

Yng nghynhesrwydd gwawr yr haf
cawn ein hatgoffa
fod dy Ysbryd gyda ni
wrth i ni gychwyn ar y daith.

Yng ngolau tyner bore o haf
cawn ein hatgoffa
fod dy oleuni yn llewyrchu
ar bob cam o'n taith.

Yn harddwch golygfa haf
cawn ein hatgoffa
fod ein byd wedi'i beintio
â chariad yn ogystal â lliw.

Ar ddiwedd dydd o haf
cawn ein hatgoffa
am bosibiliadau yfory
wrth bod yr haul yn machlud.

Diolch am fod gyda ni
o doriad gwawr hyd derfyn dydd.